Siarad Gyda Fi
Talk With Me

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Fframwaith Hyfforddi Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu Blynyddoedd Cynnar ar gyfer Cymru

Fframwaith Cymru Gyfan ar gyfer ymarferwyr sy'n gweithio gyda babanod a phlant ifanc 0-5 oed



Cyflwyniad

Mae'r fframwaith hyfforddi lleferydd, iaith a chyfathrebu blynyddoedd cynnar ar gyfer Cymru (y cyfeirir ato o hyd ymlaen fel y fframwaith hyfforddi blynyddoedd cynnar) yn offeryn y gall pob ymarferydd ei ddefnyddio i nodi ei anghenion hyfforddi o ran datblygu lleferydd, iaith a chyfathrebu. Mae'r fframwaith hyfforddi blynyddoedd cynnar yn disodli Llwybr hyfforddi Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu Cymru Gyfan. Fe'i cynlluniwyd i gyd-fynd ag Offeryn Darganfod Sgiliau Speech and Language UK, Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar a'r Cwricwlwm i Gymru.

Mae'r fframwaith hyfforddi blynyddoedd cynnar yn galluogi ymarferwyr ac arweinwyr, ar bob lefel, i nodi'n glir pa hyfforddiant sydd ei angen arnyn nhw, sut i gael mynediad at yr hyfforddiant angenrheidiol a sut i sicrhau bod hyfforddiant yn arwain at welliannau ystyrlon mewn ymarfer, amgylcheddau a chanlyniadau i fabanod a phlant ifanc.

Bydd yn cynnig cyfleoedd i ddatblygu sgiliau a gwybodaeth y gweithlu ymhellach ym maes lleferydd, iaith a chyfathrebu, fel bod pob ymarferydd yn cael mynediad at wybodaeth a hyfforddiant er mwyn hyrwyddo canlyniadau cadarnhaol i'r babanod a'r plant ifanc yn eu gofal.

Mae llawer o gyrsiau hyfforddi lleferydd, iaith a chyfathrebu ar gael ledled Cymru a fydd yn bodloni'r gofynion penodedig, ac ni fydd pob cwrs ar gael ym mhob ardal. Rhoddir enghreifftiau yn y fframwaith hyfforddi blynyddoedd cynnar, ond nid yw'r ddogfen hon yn ceisio darparu cyfeiriadur cynhwysfawr o gyrsiau. Mewn rhai achosion, argymhellir hyfforddiant gloywi a nodir amserlenni. Mae'n bwysig bod hyfforddiant gloywi yn cael ei gynnwys mewn datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) neu gynlluniau dysgu a byddai'n fuddiol pennu amserlenni'n lleol ar gyfer hyn.



Nodi gofynion hyfforddi

Bydd gofynion hyfforddi yn amrywio ym mhob lleoliad. Bydd angen i arweinwyr nodi beth fydd yn diwallu anghenion lleoliadau a babanod a phlant ifanc unigol, er y dylai fod gan bob aelod o staff lefel gyffredinol o ddealltwriaeth o ddatblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu.

Anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu yw un o'r mathau mwyaf cyffredin o anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yng Nghymru. Mae'n hanfodol i oedolion arsylwi ar fabanod a phlant ifanc, cymryd sylw ohonyn nhw ac ymateb yn sensitif i bob un ohonyn nhw, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu, er mwyn gwella eu dealltwriaeth o anghenion datblygiadol babanod a phlant ifanc.

Nod y fframwaith hyfforddi blynyddoedd cynnar hwn yw nodi'r sgiliau a'r wybodaeth allweddol sydd eu hangen ar bob oedolyn sy'n galluogi dysgu i gefnogi datblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu pob babi a phlentyn ifanc 0-5 oed.

Rhoi'r fframwaith hyfforddi blynyddoedd cynnar ar waith

Cyfrifoldeb lleoliadau, awdurdodau lleol a phartneriaid yw rhoi'r fframwaith hyfforddi blynyddoedd cynnar ar waith, ac mae'n anochel y bydd trefniadau lleol yn amrywio. Er bod rhai o'r cyrsiau sy'n bodloni'r gofynion yn rhad ac am ddim, mae angen cyllid ar eraill, a bydd angen cynllunio a chyfathrebu hyn ar lefel awdurdod lleol neu gonsortiwm rhanbarthol.

Bydd trefniadau sicrhau ansawdd yn amrywio'n lleol, ac awdurdodau lleol a phartneriaid sy'n gyfrifol am hynny hefyd.



Pam mae'r fframwaith hyfforddi blynyddoedd cynnar yn bwysig

Mae'n hanfodol bod pob oedolyn sy'n galluogi dysgu sy'n gweithio gyda babanod a phlant ifanc 0-5 oed yn deall datblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu, gan fod y sgiliau sylfaenol hyn yn chwarae rhan ganolog yn natblygiad cyffredinol plentyn. Mae sgiliau cyfathrebu cynnar ac effeithiol yn hanfodol ar gyfer integreiddio cymdeithasol, lles emosiynol a llwyddiant academaidd. Gall babanod a phlant ifanc ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu gael trafferth ymgysylltu'n llawn â'u cyfoedion, deall cyfarwyddiadau neu fynegi eu hunain yn effeithiol, a all arwain at heriau ehangach o ran dysgu a datblygiad personol. Trwy gydnabod pwysigrwydd datblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu, gall ymarferwyr helpu babanod a phlant ifanc yn well i oresgyn yr heriau hyn, magu hyder a sicrhau bod ganddyn nhw'r hyn sydd ei angen arnyn nhw i lwyddo yn eu holl amgylcheddau.



Mae data o CYBLD 2026, MALlC 2025 a research cyhoeddwyd yn dweud wrthym fod:

- mae gan 37% o blant ADY yng Nghymru anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu, y math mwyaf cyffredin o ADY yng Nghymru
- mae gan 34% oo blant ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu yn byw mewn ardaloedd o anfantais gymdeithasol uchel
- mae plant sydd â sgoriau geirfa is yn 5 oed ddwywaith yn fwy tebygol o brofi cyfnodau o ddiweithdra yn oedolion
- mae gan 81% o blant ag anhwylderau emosiynol ac ymddygiadol anghenion cyfathrebu nad ydynt wedi'u nodi'n flaenorol
- roedd gan 71% o blant a ddedfrydwyd yn y system cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru a Lloegr anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu (data a gasglwyd rhwng Ebrill 2019 a Mawrth 2020).


Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn y ffeithluniau hyn.

Tair lefel y fframwaith hyfforddi blynyddoedd cynnar

Mae'r fframwaith hyfforddi blynyddoedd cynnar wedi'i rannu'n 3 lefel sy'n cefnogi gwahanol rolau pob oedolyn sy'n galluogi dysgu wrth weithio gyda phob baban a phlentyn ifanc, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu. O fewn pob lefel, mae angen ystyried sut i ddatblygu profiadau diddorol ac amgylcheddau effeithiol i ddiwallu anghenion pob baban a phlentyn ifanc sydd ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu. **Y 3 lefel yw:**

Cyffredinol

Dylai pob oedolyn sy'n gweithio mewn amgylchedd gyda babanod a phlant ifanc feddu ar wybodaeth gyffredinol am anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu. Mae'r lefel hon yn darparu cyflwyniad i ddeall datblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu a sut i gefnogi pob baban a phlentyn ifanc, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu, ym mhob agwedd ar eu bywyd bob dydd.



Uwch

Nod y lefel 'Uwch' yw datblygu sgiliau allweddol i'r oedolion hynny sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda babanod a phlant ifanc i adnabod a chefnogi anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu.

Penodol

Mae'r lefel 'Penodol' ar gyfer yr oedolion hynny sy'n chwarae rhan sylweddol wrth gefnogi anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu a gallant ddarparu ymyriadau arbenigol a phenodol uniongyrchol.

- **Lleferydd, iaith a chyfathrebu 'Cyffredinol'** – mae gan bob oedolyn sy'n galluogi dysgu ddealltwriaeth gyffredinol o anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu ac yn gwybod sut i greu amgylchedd effeithiol i bob dysgwr ffynnu.
- **Lleferydd, iaith a chyfathrebu 'Uwch'** – mae gan bob oedolyn sy'n galluogi dysgu sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda babanod a phlant ifanc sy'n wynebu risg o anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu ddealltwriaeth well o sut i adnabod a chefnogi anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu.
- **Lleferydd, iaith a chyfathrebu 'Penodol'** – mae gan bob oedolyn sy'n galluogi dysgu sydd â rôl benodol wrth gefnogi babanod a phlant ifanc sydd ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu wybodaeth arbenigol a manwl am sut i adnabod a chefnogi anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu.

Lleferydd, iaith a chyfathrebu ‘Cyffredinol’



Lleferydd, iaith a chyfathrebu 'Cyffredinol' (parhad)

Bydd gan bob oedolyn sy'n galluogi dysgu ddealltwriaeth gyffredinol o anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu ac yn gwybod sut i greu amgylchedd effeithiol i bob dysgwr ffynnu.

Pwy sydd wedi'i gynnwys	• Pawb sy'n dod i gysylltiad â babanod a phlant ifanc yn ystod y dydd. Mae hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i: – ymarferwyr gofal plant – staff meithrin/derbyn – gwarchodwyr plant – staff gweinyddol – staff arlwyo – arweinwyr.
Gwybodaeth sydd ei hangen	• Ymwybyddiaeth a gwybodaeth sylfaenol am leferydd, iaith a chyfathrebu ac anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu. • Yn gallu esbonio'r termau "lleferydd", "iaith" a "chyfathrebu", er enghraifft, bod iaith yn cynnwys deall a siarad. • Ymwybyddiaeth o sut i adnabod nodweddion anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu. • Dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o sut i ymateb i fabanod a phlant ifanc sydd ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu yn ogystal â sut i ennyn eu diddordeb. • Lefel sylfaenol o ddealltwriaeth o sut mae dysgu mwy nag un iaith yn arwain at lu o fanteision a sut nad yw'n achosi anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu.
Ystyriaethau yn yr amgylchedd	• Dealltwriaeth o ddylanwad yr amgylchedd ar ddatblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu babanod a phlant ifanc ac adnabod nodweddion allweddol amgylchedd cyfathrebu cefnogol. • Yr wybodaeth a'r hyder i ddefnyddio technegau i helpu babanod a phlant ifanc i ddatblygu eu sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu.
Training requirements	• A basic understanding of typical SLC skills. • Practical strategies for support for all babies and young children across activities. • The importance of SLC skills to learning and wellbeing. • Knowledge of the challenges related to SLCN and how they may impact on development and wellbeing.

Lleferydd, iaith a chyfathrebu ‘Cyffredinol’ (parhad)

Mesur pa mor effeithiol yw’r hyfforddiant	• Dylai pob ymarferydd nodi cynnydd mewn gwybodaeth a hyder trwy: – offer hunanwerthuso – holiaduron cyn ac ar ôl hyfforddiant – sicrhau ansawdd, a fydd yn cael ei gytuno’n lleol. • Mae sawl offeryn hunanwerthuso ar gael i ymarferwyr a lleoliadau. Mae’r rhain yn cael eu cynnwys neu eu trafod yn y cyrsiau hyfforddi o fewn y llwybr, ac maen nhw’n cynnwys: – Rhestrau gwirio Elklan (dim ond i ymarferwyr sydd wedi ymgymryd â chyrsiau Elklan y mae rhestrau gwirio Elklan ar gael) – Mae rhestrau gwirio Speech and Language UK yn rhad ac am ddim a chaiff dolenni eu darparu yma er mwyn cyfeirio atyn nhw: Offeryn Arsylwi Dosbarth sy’n Cefnogi Cyfathrebu (CSCOT) – Speech and Language UK: Changing young lives.


Lleferydd, iaith a chyfathrebu ‘Cyffredinol’ (parhad)

Adnoddau a hyfforddiant defnyddiol	• Mae cyrsiau ‘lefel ragarweiniol’ yn cyfeirio at gymwyseddau lefel mynediad yn nhermau lleferydd, iaith a chyfathrebu ac anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu. Gellir dod o hyd i enghreifftiau o’r rhain yn: – Canllawiau i ymarferwyr sy’n darparu Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar i blant 0 i 4 oed – Mae cwrs byr yr Ymddiriedolaeth Cyfathrebu yn gyflwyniad ar-lein i leferydd, iaith a chyfathrebu. Mae’r cwrs yn rhad ac am ddim ac mae’n cymryd tua hanner diwrnod i’w gwblhau – Offer a hyfforddiant Speech and Language UK (yn cynnwys hyfforddiant penodol i warchodwyr plant) – Offeryn Darganfod Sgiliau (Speech & Language UK) – Siarad gyda fi: Gwybodaeth ac adnoddau i deuluoedd – Siarad gyda fi: Gwybodaeth ac adnoddau i ymarferwyr – Siarad gyda fi: Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu – ExChange. • Mae Elklan yn ddarparwyr hyfforddiant sy’n arbenigo mewn lleferydd, iaith a chyfathrebu. Maen nhw’n hyfforddi hyfforddwyr i gyflwyno cyrsiau’n lleol yn ôl yr angen. Mae enghreifftiau o gyrsiau Elklan yn cynnwys: – An Introduction to Speech, Language and Communication cwrs e-ddysgu byr sy’n rhad ac am ddim – Speech and Language Support for 0-3s | Elklan Training Ltd (mae llawlyfrau Cymraeg ar gael mewn llyfrgelloedd ledled Cymru) – Speech and Language Support for 3-5s | Elklan Training Ltd.

Lleferydd, iaith a chyfathrebu 'Cyffredinol' (parhad)

Adnoddau a hyfforddiant defnyddiol (parhad)	• Mae Hanen yn ddarparwyr hyfforddiant arall sy'n arbenigo mewn lleferydd, iaith a chyfathrebu: – The Hanen Centre – Learning Language and Loving It™ Program for Early Childhood Educators (mae llawlyfrau Cymraeg ar gael ym mhob un o'r prif lyfrgelloedd yng Nghymru). • Llywodraeth Cymru: – Rhestr chwarae Hwb 'Llwybrau Datblygu' – 'Talk with Me' Hwb playlist. • Dysgu Iechyd a Gofal Cymru: Gofal, Chwarae, Dysgu, a Datblygiad Plant: – Mae'r gyfres o gymwysterau Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant yn cynnwys lleferydd, iaith a chyfathrebu ar lefel 2, lefel 3 a lefel 4. Mae'r cynnwys ar lefelau 3 a 4 yn bodloni'r cymwyseddau ar lefel gyffredinol ac uwch, yn y drefn honno. DS: nid oedd cymwysterau gofal plant lefel mynediad blaenorol yn cynnwys cynnwys i fodloni cymwyseddau lleferydd, iaith a chyfathrebu. • 'Y Ty Dysgu': – The parent-infant relationship and infant mental health e-learning course • Hyfforddiant pwrpasol: – Hyfforddiant anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu rhagarweiniol pwrpasol wedi'i drefnu gan gwasanaethau lleol. Bydd hyfforddiant pwrpasol yn cael ei nodi gan arbenigwr (e.e. Therapydd Iaith a Lleferydd) ac mae'n benodol i anghenion y lleoliad neu'r unigolyn, e.e. arwyddiaith; cyfathrebu amgen ac atgyfnerthol. Er mai pynciau arbenigol yw'r rhain, gallan nhw fod yn berthnasol ac yn angenrheidiol i staff ar bob lefel o'r llwybr yn dibynnu ar y pwnc ac anghenion y plentyn neu'r babanod a'r plant ifanc.

Lleferydd, iaith a chyfathrebu ‘Uwch’



Lleferydd, iaith a chyfathrebu ‘Uwch’ (parhad)


Mae gan bob oedolyn sy’n galluogi dysgu sy’n gweithio’n uniongyrchol gyda babanod a phlant ifanc sy’n wynebu risg o anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu ddealltwriaeth well o sut i adnabod a chefnogi anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu.

Pwy sydd wedi’i gynnwys	• Y rhai sy’n gweithio’n uniongyrchol gyda babanod a phlant ifanc, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i: – Arweinwyr – Cynorthwywyr cymorth dysgu – Gwirfoddolwyr – Rhieni a gofalwyr – Staff meithrin/derbyn – Swyddog arweiniol anghenion dysgu ychwanegol blynyddoedd cynnar. • Pob oedolyn sy’n galluogi dysgu sy’n cefnogi datblygiad llythrenedd, iaith a chyfathrebu nodweddiadol fel rhan o’i rôl. • Y rhai sy’n debygol o fod yn rhan o’r gwaith o adnabod babanod a phlant ifanc ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu neu sy’n gweithio gyda’r rhai sydd ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu. • Pob oedolyn sy’n galluogi dysgu sy’n darparu ymyriadau wedi’u targedu i fabanod a phlant ifanc ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu, naill ai 1:1 neu mewn grwpiau bach, er enghraifft cynorthwywyr cymorth dysgu, arweinwyr (wedi’u targedu yn dibynnu ar y garfan).
Gwybodaeth ychwanegol sydd ei hangen	• Sgiliau a gwybodaeth sydd eu hangen ar gyfer lefel lleferydd, iaith a chyfathrebu ‘Cyffredinol’, ynghyd â: – dealltwriaeth drylwyr o ddatblygiad nodweddiadol lleferydd, iaith a chyfathrebu ac achosion anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu gan gynnwys ffactorau risg – y gallu i esbonio cysylltiadau rhwng anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu a meysydd datblygu eraill – dealltwriaeth fanwl o anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu i wneud penderfyniadau gwybodus a chefnogi babanod a phlant ifanc unigol.

Lleferydd, iaith a chyfathrebu ‘Uwch’ (parhad)

Ystyriaethau yn yr amgylchedd	• Yn gallu gwneud addasiadau i arferion gwaith ac amgylcheddau ffisegol. • Yn gallu defnyddio ystod o strategaethau i gefnogi babanod a phlant ifanc sydd ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu. • Gwybodaeth a dealltwriaeth well o sut i greu amgylchedd sy’n croesawu cyfathrebu i ddiwallu anghenion pob baban a phlentyn ifanc sydd ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu.
Gofynion hyfforddi	• Sut i addasu’r gweithgareddau i fod yn briodol yn ddatblygiadol ar gyfer anghenion babanod a phlant ifanc sydd ag ystod o anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu. • Dealltwriaeth o’r ystod benodol o anghenion sy’n gysylltiedig ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu. • Ymwybyddiaeth o sut i adnabod ymddygiadau a allai fod yn arwydd o anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu a dealltwriaeth o effaith yr anghenion hyn ar feysydd datblygu eraill. • Yn gyfarwydd ag offer neu brosesau adnabod ar gyfer cyfeirio babanod a phlant ifanc at wasanaethau arbenigol, sy’n benodol i drefniadau lleol.
Mesur pa mor effeithiol yw’r hyfforddiant	• Cynnydd mewn gwybodaeth a hyder fel y’u nodir trwy: – offer hunanwerthuso – holiaduron cyn ac ar ôl hyfforddiant – sicrhau ansawdd, a fydd yn cael ei gytuno’n lleol. • Mae sawl offeryn gwerthuso ar gyfer ymarferwyr a lleoliadau: – Rhestrau gwirio Elklan (ar gael i ymarferwyr sydd wedi cwblhau cwrs Elklan) – Cronfa ddata What Works ar gyfer tystiolaeth o effeithiolrwydd.
Adnoddau a hyfforddiant defnyddiol	• Adnoddau DLD NAPLIC ar gyfer ysgolion a theuluoedd • Communication Friendly Settings – Early Years | Elklan Training Ltd • Dyfarniad NCFE CACHE Lefel 3 mewn cefnogi lleferydd, iaith a chyfathrebu babanod a phlant ifanc • Offer a hyfforddiant Speech and Language UK • Speech and Language Support for 0-3s | Elklan Training Ltd • Speech and Language Support for 3-5s | Elklan Training Ltd.

Lleferydd, iaith a chyfathrebu ‘Penodol’



Lleferydd, iaith a chyfathrebu ‘Penodol’ (parhad)

Mae gan bob oedolyn sy’n galluogi dysgu sydd â rôl benodol wrth gefnogi babanod a phlant ifanc sydd ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu wybodaeth arbenigol a manwl am sut i adnabod a chefnogi anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu.

Pwy sydd wedi’i gynnwys	• Y rhai sydd â rôl benodol ym maes lleferydd, iaith a chyfathrebu ac sy’n cefnogi babanod a phlant ifanc sydd ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i: – Swyddog arweiniol anghenion dysgu ychwanegol blynyddoedd cynnar – Ymarferydd cyfathrebu arweiniol neu hyrwyddwr lleferydd, iaith a chyfathrebu – Ymarferwyr arbenigol sy’n cefnogi babanod a phlant ifanc unigol ag anghenion sy’n gysylltiedig â lleferydd, iaith a chyfathrebu. • Pob oedolyn sy’n galluogi dysgu sydd â rôl sylweddol wrth gefnogi anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i’r canlynol: – Cynorthwywyr cymorth dysgu – Athrawon arbenigol blynyddoedd cynnar. • Pob oedolyn sy’n galluogi dysgu sy’n treulio llawer o’i fywyd gwaith yn cefnogi babanod a phlant ifanc sydd ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu. • Y rhai sy’n chwarae rhan sylweddol wrth adnabod ac asesu babanod a phlant ifanc sydd ag anghenion lleferydd, dysgu a chyfathrebu. • Y rhai sy’n debygol o helpu ymarferwyr eraill i weithio gyda babanod a phlant ifanc sydd ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu.
Gwybodaeth ychwanegol sydd ei hangen	• Sgiliau a gwybodaeth sydd eu hangen ar lefel lleferydd, iaith a chyfathrebu ‘Cyffredinol’ a lefel lleferydd, iaith a chyfathrebu ‘Uwch’, ynghyd â’r canlynol: – y gallu i adnabod babanod a phlant ifanc sy’n wynebu risg o fod ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu hirdymor – sgiliau i gefnogi ymarferwyr eraill sy’n gweithio gyda babanod a phlant ifanc sydd ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu – y gallu i ddarparu ymyriadau arbenigol i gefnogi babanod a phlant ifanc penodol sydd ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu.

Lleferydd, iaith a chyfathrebu ‘Penodol’ (parhad)

Ystyriaethau yn yr amgylchedd	• Gwybodaeth fanwl am effaith yr amgylchedd ar ddatblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu a’r gallu i addasu’r amgylchedd i sicrhau bod pob ardal o’r ysgol yn ystyriol o gyfathrebu. • Yr wybodaeth a’r hyder wrth ddefnyddio technegau i helpu babanod a phlant ifanc i ddatblygu eu sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu a chynghori staff eraill yr ysgol ar sut i fynd i’r afael â’r cwricwlwm a gwahaniaethu tasgau mewn ffordd sy’n briodol yn addysgegol.
Gofynion hyfforddi	• Dealltwriaeth fanwl o anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu. • Dealltwriaeth drylwyr o’r ymddygiadau a allai fod yn arwydd o anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu a gwybodaeth am effaith yr anghenion hyn ar feysydd datblygu eraill, er enghraifft ymddygiad ac anghenion synhwyraidd. • Profiad o ddefnyddio offer adnabod a dehongli’r rhain i gynllunio a chefnogi babanod a phlant ifanc sydd ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu penodol wrth weithio mewn cydweithrediad â gwasanaethau arbenigol fel therapyddion lleferydd ac iaith, sy’n benodol i’ch trefniadau lleol. • Gwybodaeth arbenigol briodol am anghenion penodol y babanod a’r plant ifanc maen nhw’n gweithio gyda nhw, er enghraifft babanod a phlant ifanc byddar, y sawl sy’n defnyddio dulliau cyfathrebu amgen ac atgyfnerthol. • Sut i eirioli a chodi ymwybyddiaeth o anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu ymhlith pob oedolyn sy’n galluogi dysgu i greu amgylchedd cynhwysol ac effeithiol, gan gynnwys cefnogi babanod a phlant ifanc gyda phrofiadau diddorol ac unrhyw gyfnodau pontio.
Mesur pa mor effeithiol yw’r hyfforddiant	• Cynnydd mewn gwybodaeth a hyder fel y’u nodir trwy: – offer hunanwerthuso – holiaduron cyn ac ar ôl hyfforddiant – sicrhau ansawdd, a fydd yn cael ei gytuno’n lleol. • Mae sawl offeryn gwerthuso ar gyfer ymarferwyr a lleoliadau: – Rhestrau gwirio Elklan (ar gael ar ôl i ymarferwyr gwblhau cwrs) – Cronfa ddata What Works ar gyfer tystiolaeth o effeithiolrwydd.

Lleferydd, iaith a chyfathrebu ‘Penodol’ (parhad)

Adnoddau a hyfforddiant defnyddiol	• Communication Friendly Settings – Early Years | Elklan Training Ltd • Cronfa ddata hyfforddiant Speech & Language UK • Cyrsiau arbenigol Elklan ar gyfer ymarferwyr Enghreifftiau o gyrsiau arbenigol yn cynnwys ‘Cefnogi disgyblion ag anawsterau clywed/lleferydd aneglur/disgyblion geiriol ag anhwylderau’r sbectrwm awtistig’ • Cyrsiau hyfforddi ar fudandod dethol • ‘DLD bubble toolkit’ NAPLIC • ‘DLD friendly audit’ NAPLIC • Dyfarniad Cyfathrebu Lefel Uwch Elklan • Offer a hyfforddiant Speech and Language UK • RADLD (Codi Ymwybyddiaeth o Anhwylder Datblygu Iaith) STAMMA.

Atodiad 1: Cofnod hyfforddiant ar gyfer lleoliadau

Cynlluniwyd y templed hwn i helpu arweinwyr lleoliadau i gadw cofnod o ofynion hyfforddi a statws ymarferwyr. Fe'i darperir ar ffurf taenlen Excel ynghyd â'r fersiwn electronig o'r llwybr, ac mae modd ei olygu'n llawn i alluogi ymarferwyr i gynnwys hyfforddiant lleol pwrpasol, er enghraifft. Mae'r fersiwn Excel ar gael i chi ei lawrlwytho yn Adnoddau hyfforddi lleferydd, iaith a chyfathrebu – ExChange

		Enw'r cwrs:			**Enw'r cwrs:**			**Enw'r cwrs:**		
Enw'r ymarferydd	Lefel Sgil (gweler cymwyseddau, uchod))	Gofynnol? Y/N	Wedi'i gwblhau? Y/N/Amh	Dyddiad cwblhau, os yw'n berthnasol	Gofynnol? Y/N	Wedi'i gwblhau? Y/N/Amh	Dyddiad cwblhau	Gofynnol? Y/N	Wedi'i gwblhau? Y/N/Amh	Dyddiad cwblhau

OGL © Hawlfraint y Goron 2026, Llywodraeth Cymru, WG55149, ISBN digidol 978-1-80853-659-5
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg